| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 19 Mawrth 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar waith llywodraethu a chefnogi y gwasanaeth. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Mae'r adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor ar ddatblygiadau llywodraethu a chefnogi aelodau ers y cyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd.

**Cyfarfodydd Hybrid**

2. Mae gan y Cyngor brotocol ar gyfer rhoi canllawiau clir a chyfredol i aelodau pwyllgorau'r Cyngor ar sut i weithredu mewn cyfarfodydd hybrid ac wrth ymuno o bell. Mae cadeirydd pob pwyllgor yn cyfeirio at y Protocol ar ddechrau cyfarfodydd.

3. Fel rhan o'r gwaith adolygu trefniadau sgrwtini, ac yn dilyn ceisiadau gan aelodau, mae cytundeb i gynnal cyfarfodydd paneli sgrwtini yn hybrid o hyn ymlaen yn hytrach na'u cynnal yn rhithiol yn unig.

4. Felly bydd holl gyfarfodydd pwyllgor y Cyngor a phaneli sgriwtini yn cael eu cynnal yn hybrid. Bydd cyfarfodydd paratoi a sesiynau briffio aelodau yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol yn unig gyda rhai eithriadau.

5. Mae cynnal cyfarfodydd hybrid yn cymryd mwy o adnoddau na chyfarfodydd rhithiol, ond mae'r drefn uchod yn cynnig cydbwysedd priodol rhwng gofynion cyfreithiol, gofynion aelodau a capasiti'r gwasanaeth.

**Gwe ddarlledu cyfarfodydd pwyllgor**

6. Mae gwelliannau wedi eu gwneud i'r safle gwe ddarlledu ar wefan y Cyngor yn ddiweddar. Mae rhaglenni cyfarfodydd wedi eu cysylltu i'r recordiad, fel bod modd clicio i fynd yn syth at eitemau agenda penodol.

7. Rydym yn parhau i gasglu a monitro data gwylio gwe ddarlledu ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd drwy tîm cyfathrebu y Cyngor. Mae'r data yn gadarnhaol ar y cyfan. Er enghraifft mae dros 300 yn gwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfartaledd a tua 200 yn gwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir.

**Llesiant Aelodau**

8. Mae gwasanaeth cwnsela Medra ar gael i staff ac i aelodau'r Cyngor. Mae'n wasanaeth proffesiynol a chyfrinachol ac ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae gwybodaeth wedi ei rannu gyda aelodau yn flaenorol am y gwasanaeth a byddwn yn cysylltu eto yn fuan i atgoffa.

9. Ymhellach i hynny, rydym yn ymwybodol bod aelodau etholedig yn destun ymddygiad bygythiol a sylwadau sarhaus ar adegau. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru swyddog sy'n cynghori ar faterion aelodau etholedig. Mae trefniadau yn cael eu gwneud drwy'r Heddlu i ddarparu hyfforddiant i aelodau ar ddiogelwch.

10. Byddwn hefyd yn llunio canllaw i aelodau ar ddiogelwch personol dros yr wythnosau nesaf er mwyn rhoi arweiniad pellach ar y pwnc.

**Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig**

11. Derbyniwyd 26 adroddiad blynyddol gan aelodau ar gyfer 23/24, sef yr un nifer a dderbyniwyd ar gyfer 22/23 ac yn gynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol. Mae pob adroddiad wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

12. Yn ystod mis Mawrth, caiff neges ei anfon at aelodau gyda chyfarwyddiadau a templed ar gyfer cwblhau adroddiad 24/25. Byddwn yn gofyn i'r adroddiadau gael eu cyflwyno i ni erbyn diwedd Mai fel eu bod yn cael eu cyhoeddi yn ystod Mehefin. Bydd swyddogion democrataidd ar gael i gynorthwyo yn y ffordd arferol.

**Sgwrs flynyddol aelodau / arweinydd grwp**

13. Mae'n arfer da i arweinyddion grŵp gynnal sgwrs flynyddol gyda aelodau eu grŵp er mwyn trafod eu anghenion datblygu a'u gwaith dros y flwyddyn. Rydym wedi darparu templed fel sail i'r sgyrsiau.

14. Os oes gofynion hyfforddiant yn codi o'r sgyrsiau gofynnwn i gael gwybod erbyn diwedd Ebrill er mwyn eu trafod gyda'r tîm hyfforddiant a'u hystyried ar gyfer cynllun datblygu aelodau 25/26.

**Cofrestrau diddordeb a rhoddion**

15. Caiff cofrestr diddordeb pob aelod etholedig ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae angen i unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau gael eu cofnodi o fewn 28 diwrnod gwaith.

16. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau, mae ymdrech pellach wedi ei wneud i sicrhau bod aelodau yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ddatganiad diddordeb mewn cyfarfodydd drwy gwblhau’r ffurflen priodol. Mae cadeiryddion yn atgoffa aelodau i wneud hynny fel rhan o’r datganiad agoriadol mewn pwyllgorau ac mae ffurflenni ar gael gan glerc y pwyllgor. Cyfrifoldeb aelodau unigol ydi sicrhau eu bod yn llenwi’r ffurflen.

17. Gyda chofrestrau rhoddion a lletygarwch, mae dyletswydd ar aelodau yn unol a’r Cod Ymddygiad i hysbysu’r awdurdod o roddion a lletygarwch sy’n uwch na’r trothwy yn y Protocol Rhoddion a Lletygarwch o fewn 28 diwrnod o’i dderbyn a chaiff y wybodaeth ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

18. Mae swyddogion y gwasanaeth ar gael i helpu os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch y trefniadau hyn.

**Argymhelliad**

19. I’r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.